WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Rhoi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar Waith – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**

Blwyddyn archwilio: 2019

Dyddiad cyhoeddi: Tacvhwedd 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1509A219-20

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, gan gynnwys a15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Emily Howell ac Urvisha Perez.

# Cynnwys

Mae gan y Bwrdd Iechyd ddealltwriaeth dda am yr egwyddor datblygu cynaliadwy y mae'n amlwg ei fod wedi'i hystyried wrth ddatblygu trefniadau corfforaethol ac ymgorffori'r model cymdeithasol o ofal yn natblygiad canolfannau iechyd a llesiant a hybiau llesiant, ond mae'n cydnabod bod mwy i'w wneud.


Adroddiad cryno

Cefndir 5

Ffocws y gwaith 5

Prif ganfyddiadau 6

Cyfleoedd ar gyfer gwella 7

Adroddiad manwl

Rhan 1 – Trefniadau corfforaethol 9

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau i wreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac mae'n gallu darparu enghreifftiau o weithio'n wahanol ond mae'n cydnabod bod heriau i'w goresgyn o hyd 9

Rhan 2 – Archwiliad o ymgorffori'r model cymdeithasol o ofal yn natblygiad canolfannau iechyd a llesiant a hybiau llesiant 11

Mae'r pum ffordd o weithio wedi bod yn ganolog i gynllunio'r canolfannau iechyd a llesiant a'r hybiau llesiant ond mae cyfle i'r Bwrdd Iechyd a'i bartneriaid adeiladu ar lwyddiannau ar gyfer camau nesaf y rhaglen 11

Mae'r canolfannau iechyd a llesiant a'r hybiau llesiant wedi'u bwriadu i fod yn rhan o'r weledigaeth hirdymor ehangach i greu model gofal iechyd mwy cynaliadwy ond mae cyflawni newid mewn adnoddau'n dal i fod yn her 11

Mae ffocws cryf ar addysgu a grymuso cymunedau i gymryd rheolaeth dros eu hiechyd eu hunain trwy hybu newid o feddwl am afiechyd i feddwl am iechyd, ond mae angen i'r Bwrdd Iechyd barhau i ddatblygu proses i fonitro effeithiolrwydd modelau gofal newydd i gyflawni manteision ataliol 12

Mae gweledigaeth glir o ran sut y bydd y canolfannau a'r hybiau'n cefnogi pob un o'r nodau llesiant ond mae cyfleoedd i weithio gyda sefydliadau eraill i gynyddu'r effaith i'r eithaf ar draws yr holl nodau llesiant 13

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydweithio'n dda gyda'i bartneriaid i ddatblygu'r canolfannau iechyd a llesiant a'r hybiau llesiant gan arwain at berthnasoedd cryfach ond mae gwaith pellach i'w gwblhau ar egwyddorion gweithredu trosfwaol y canolfannau a'r hybiau 14

Mae'r Bwrdd Iechyd a'i bartneriaid wedi cynnwys amrywiaeth eang o grwpiau ac wedi diweddaru ei gynllun ymgysylltu i gynnwys gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau ymgysylltu 15

## Atodiadau

Atodiad 1 – Y Cam: ymgorffori'r model cymdeithasol o ofal yn natblygiad canolfannau iechyd a llesiant a hybiau llesiant 17

Atodiad 2 – Y Pum Ffordd o Weithio 19

Atodiad 3 – Ymateb Rheolwyr y Bwrdd Iechyd 21

# Adroddiad cryno

## Cefndir

1 Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) mae'n ofynnol yn statudol i Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) archwilio cyrff cyhoeddus i asesu i ba raddau y maent wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth:

a. pennu eu hamcanion llesiant; a

b. cymryd camau i'w cyflawni.

2 Mae'r Ddeddf yn diffinio'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel gweithredu mewn modd: '…sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'

3 Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu adroddiad ar ei archwiliadau ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru o leiaf flwyddyn cyn pob un o etholiadau'r Cynulliad. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad cyntaf o'i fath erbyn 2020, cyn etholiadau'r Cynulliad yn 2021.

4 Ym mis Mai 2018, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad, **Myfyrio ar Flwyddyn Un - Sut mae cyrff cyhoeddus wedi ymateb i ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**. Daeth i'r casgliad bod cyrff cyhoeddus yn cefnogi egwyddorion y Ddeddf ac yn cymryd camau i newid y ffordd y maent yn gweithio.

5 Yn ystod 2018 a 2019 mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal archwiliadau ar draws y 44 o gyrff a gwmpesir gan y Ddeddf i oleuo'i adroddiad ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol yn 2020. Wrth ddatblygu ein dull o gynnal yr archwiliadau fe wnaethom ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid a gwneud gwaith peilot yn ystod 2017-18. Rydym hefyd wedi cydweithio'n agos gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

6 Roedd y gwaith rhagarweiniol a wnaed gennym yn 2017 yn cynnwys ystyried sut yr oedd cyrff cyhoeddus wedi pennu eu hamcanion llesiant. Prif ffocws ein gwaith yn 2019 yw'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn cymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant.

7 Fe wnaethom ein gwaith maes ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (y Bwrdd Iechyd) rhwng mis Mehefin a mis Gorffennaf 2019.

## Ffocws y gwaith

8 Fe archwilion ni i ba raddau y mae'r Bwrdd Iechyd yn:

- cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio er mwyn gwneud pethau'n wahanol;
- gwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy mewn trefniadau a phrosesau craidd; ac yn

- cynnwys a gweithio gyda dinasyddion a rhanddeiliaid i gyflawni ei ddyletswydd llesiant.

9 Fe gynhalion ni adolygiad lefel-uchel o'r modd y mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i ddatblygu ei drefniadau corfforaethol ers ein gwaith sylfaenol yn 2017 i oleuo sylwebaeth un-flwyddyn yr Archwilydd Cyffredinol yn 2018. Fe wnaethom hefyd archwilio i ba raddau y mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac yn cymhwyso'r pum ffordd o weithio trwy gam sy'n cael ei gymryd i gyflawni amcan llesiant. Yn benodol, fe wnaethom adolygu datblygiad y cynigion ac achosion busnes ar gyfer canolfannau iechyd a llesiant a hybiau llesiant (canolfannau a hybiau) a ddisgrifir yn Atodiad 1.

10 Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi'r pum ffordd o weithio a ddiffinnir yn nogfen Llywodraeth Cymru **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: Yr Hanfodion**. Mae Atodiad 2 yn nodi dangosyddion cadarnhaol ar gyfer pob un o'r pum ffordd o weithio yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'n harchwiliad.

Arddangosyn 1: y 'pum ffordd o weithio' a ddiffiniwyd gan Lywodraeth Cymru

| Y Pum Ffordd o Weithio |
| --- |
| **Hirdymor**<br>Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd. |
| **Atal**<br>Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion. |
| **Integreiddio**<br>Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. |
| **Cydweithio**<br>Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant. |
| **Cynnwys**<br>Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu. |

11 Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau ynglŷn â dull corfforaethol y Bwrdd Iechyd o wreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy a sut y mae'r pum ffordd o weithio wedi cael eu cymhwyso trwy ei waith ar **ymgorffori'r model cymdeithasol o ofal yn natblygiad canolfannau iechyd a llesiant a hybiau llesiant** (y cam).

## Prif ganfyddiadau

12 Canfu ein harchwiliad bod **gan y Bwrdd Iechyd ddealltwriaeth dda am yr egwyddor datblygu cynaliadwy y mae'n amlwg ei fod wedi'i hystyried wrth**

**ddatblygu trefniadau corfforaethol ac ymgorffori'r model cymdeithasol o ofal yn natblygiad canolfannau iechyd a llesiant a hybiau llesiant, ond mae'n cydnabod bod mwy i'w wneud**.

13 Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae cynnydd wedi bod o ran gwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac mae tystiolaeth yn dangos bod y Bwrdd Iechyd yn gwneud pethau'n wahanol, ond mae'n cydnabod bod heriau i'w goresgyn o hyd.
- mae'r pum ffordd o weithio wedi bod yn ganolog i gynllunio'r canolfannau iechyd a llesiant a'r hybiau llesiant ond mae cyfle i'r Bwrdd Iechyd a'i bartneriaid adeiladu ar lwyddiannau dros gamau nesaf y rhaglen.

14 Trafodir ein canfyddiadau mewn manylder yn yr adrannau canlynol o'r adroddiad hwn.

## Cyfleoedd ar gyfer gwella

15 Gan bod prif ddarpariaeth y Ddeddf wedi dod i rym yn 2016, mae'n anorfod y bydd ar gyrff cyhoeddus angen amser i roi'r newid hwnnw ar waith yn llawn. Rydym yn cydnabod bod hwn yn gyfnod pontio a bod yr holl gyrff cyhoeddus ar lwybr dysgu. Fe gyflwynon ni ein canfyddiadau mewn gweithdy o gynrychiolwyr allweddol sy'n rhan o ymgorffori'r model cymdeithasol o ofal yn natblygiad canolfannau iechyd a llesiant a hybiau llesiant' ym mis Gorffennaf 2019. Yn y gweithdy hwn fe wnaeth y Bwrdd Iechyd ystyried ein canfyddiadau, adnabod cyfleoedd ar gyfer gwella mewn perthynas â'r cam ac fe ddechreuodd ystyried ymateb manylach.

16 Mae Arddangosyn 2 yn nodi cyfleoedd y Bwrdd Iechyd ar gyfer gwella (I), sydd wedi'u bwriadu i roi cymorth i barhau i ddatblygu a gwreiddio'r egwyddorion datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio.

### Arddangosyn 2: Cyfleoedd ar gyfer gwella

| Cyfleoedd ar gyfer gwella |
|---|
| **Hirdymor** |
| I1 Mynd ati ymhellach i wella proffil gofal sylfaenol trwy adeiladu ar lwyddiannau ymgyrchoedd hyrwyddo presennol. |
| I2 Datblygu ymgyrch i addysgu'r cyhoedd am y mathau o wasanaethau a fydd ar gael ym mhob un o'r canolfannau a'r hybiau. |
| I3 Defnyddio enghreifftiau o symud gwasanaethau'n llwyddiannus o ofal eilaidd i ofal cymunedol a sylfaenol i hybu a chynnal newid mewn adnoddau o wasanaethau eraill a allai gael eu darparu'n nes at adref. |
| I4 Datblygu model i fonitro ac adolygu effaith a manteision y canolfannau a'r hybiau. Defnyddio dull cyfunol sy'n cynnwys mesurau deilliannau, data, prosiectau enghreifftiol a storïau cleifion i ddangos nid dim ond cost-effeithiolrwydd ond hefyd yr effaith gadarnhaol ar brofiad cleifion. |
| **Atal** |

| Cyfleoedd ar gyfer gwella |
|---|
| I5 Cynnal asesiadau o'r anghenion yn barhaus a mynd ati'n barhaus i adolygu gwasanaethau i sicrhau bod canolfannau a hybiau'n dal i fod yn gyfredol ac yn addas i'w diben.<br>I6 Datblygu cynllun clir i gytuno ar faterion ariannol cyn bod gwasanaethau canolfannau a hybiau'n dechrau i atal dyblygu adnoddau.<br>**Integreiddio**<br>I7 Cwblhau ymarfer mapio gwasanaethau cymunedol ar gyfer pob ardal leol i adnabod gwasanaethau y gallai gyfeirio cleifion atynt os ydynt yn perthyn y tu allan i'r gwasanaethau a ddarperir gan ganolfannau a hybiau.<br>**Cydweithio**<br>I8 Datblygu rhai egwyddorion trosfwaol ar gyfer y canolfannau a'r hybiau gan weithredu model sy'n darparu ar gyfer rhai amrywiadau lleol yn seiliedig ar angen cymunedol.<br>**Cynnwys**<br>I9 Archwilio'r cyfryngau gorau ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion sydd wedi'u hymyleiddio o ran cynllunio canolfannau a hybiau yn y dyfodol ac o ran sicrhau eu bod yn hygyrch i bawb pan ydynt yn weithredol. Er enghraifft, trwy ddod o hyd i arweinwyr cymunedol i helpu i gyflwyno negeseuon allweddol ac ymgysylltu â'r grwpiau hyn yn barhaus.<br>I10 Cynnwys cwestiwn yn nhempled y Cynllun Tymor Canolig Integredig sy'n gofyn sut y bydd byrddau clinigol yn cyrraedd grwpiau sydd wedi'u hymyleiddio. |

17 Bydd ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd yn cael ei fewnosod fel Atodiad 3 unwaith y bydd wedi'i ddatblygu a'i gytuno. Bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru ar ôl cael ei ystyried gan y Bwrdd neu un o bwyllgorau perthnasol y Bwrdd.

# Adroddiad manwl

## Rhan 1 – Trefniadau corfforaethol

### Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau i wreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac mae'n gallu darparu enghreifftiau o weithio'n wahanol ond mae'n cydnabod bod heriau i'w goresgyn o hyd

18 Cyn archwilio'r cam (ymgorffori'r model cymdeithasol o ofal yn natblygiad canolfannau iechyd a llesiant a hybiau llesiant) roedd arnom eisiau deall sut y mae trefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd yn rhoi cymorth i gyflawni'r gwaith hwnnw.

19 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd cyson o ran defnyddio egwyddorion y Ddeddf i sicrhau bod effaith hirdymor penderfyniadau'n cael eu hystyried o ddifrif cyn y gwneir penderfyniadau. Fe ddatblygodd y Bwrdd Iechyd ei strategaeth 10 mlynedd, Llunio Ein Llesiant i'r Dyfodol (SOFW) 2015-25 fel yr oedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn mynd drwy'r Cynulliad ac fe ymgorfforodd yr egwyddorion datblygu cynaliadwy yn uniongyrchol o fewn y strategaeth. Mae amcanion llesiant y Bwrdd Iechyd yr un fath â'i amcanion strategol.

20 Mae cynllun gweithredu eglur i fynd ar drywydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar draws y sefydliad, er enghraifft trwy'r Grŵp Llywio Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Ystyrir bod gweithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) yn flaenoriaeth sefydliadol a dywedodd y Bwrdd Iechyd fod ganddo berthnasoedd gweithio da gyda swyddogion mewn sefydliadau partner. Wrth i'r Bwrdd Iechyd barhau i roi ei strategaeth ar waith a datblygu ei weledigaeth, mae'n amcanu at adlewyrchu a chymhwyso gwersi i ddylanwadu ar bennu amcanion llesiant yn y dyfodol.

21 Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod rhai heriau i fynd ar drywydd ei amcanion llesiant ac mae'n ymwybodol bod angen iddo drawsnewid y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu ac annog pobl i fabwysiadu ymddygiadau iach.

22 Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cydnabod yr angen i barhau i ymgysylltu ag uwch arweinwyr, aelodau'r bwrdd clinigol a staff a chodi ymwybyddiaeth o'r Ddeddf yn eu plith. Mae'n deall pwysigrwydd dangos perthnasedd y Ddeddf a defnydd ymarferol ohoni.

23 Roedd arnom eisiau deall sut y mae'r Bwrdd Iechyd yn ymateb i'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio trwy:

- wneud pethau'n wahanol i gyflawni newid;
- datblygu trefniadau a phrosesau craidd; a
- chynnwys dinasyddion a rhanddeiliaid.

24 Caiff ein canfyddiadau eu nodi yn Arddangosyn 3.

Arddangosyn 3: gwreiddio’r egwyddor datblygu cynaliadwy a’r pum ffordd o weithio

**Gwneud pethau’n wahanol i gyflawni newid**

Darparodd y Bwrdd Iechyd enghreifftiau cadarnhaol sy’n dangos sut y mae’n ceisio defnyddio’r egwyddor datblygu cynaliadwy i danategu diwylliant a’r broses o gyflawni rhaglenni gwaith allweddol

- Dywed y Bwrdd Iechyd fod y Ddeddf wedi darparu sail dda ar gyfer gweithio mewn partneriaeth trwy BGCau a bod cydnabyddiaeth ehangach erbyn hyn i werth gwaith sy’n cyfranni at nodau llesiant ehangach yn ychwanegol at iechyd.
- Mae’r Bwrdd Iechyd yn hyrwyddo’r egwyddor datblygu cynaliadwy mewn gweithdai, sesiynau hyfforddi a rhaglenni sefydlu.
- Mae’r Bwrdd Iechyd hefyd wedi datblygu cyfeiriadur o brosiectau dangosol ar gyfer Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol o fewn y BILl.

**Datblygu trefniadau a phrosesau craidd**

Mae nifer o enghreifftiau’n dangos bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy a’r pum ffordd o weithio’n cael eu cydblethu’n llwyddiannus â threfniadau a phrosesau craidd

- Mae gan y Bwrdd Iechyd Grŵp Llywio Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol a gaiff ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd. Mae’r Grŵp Llywio’n adrodd wrth y Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni, sy’n un o bwyllgorau’r Bwrdd. Mae’r Is-gadeirydd, sef hyrwyddwr Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol y Bwrdd Iechyd, yn eistedd ar y Grŵp Llywio hefyd.
- Mae’r pum ffordd o weithio a’r egwyddor datblygu cynaliadwy wedi’u gwreiddio drwyddi draw o fewn strategaeth 10 mlynedd y Bwrdd Iechyd.
- Mae’r Bwrdd yn ystyried sut y gall gymhwyso’r 5 ffordd o weithio mewn prosesau penderfynu. Mae templedi ar gyfer adroddiadau’r Bwrdd a’i bwyllgorau yn cyfarwyddo swyddogion i nodi at ba ffyrdd o weithio y mae eu prosiectau a’u diweddariadau’n cyfrannu.

**Cynnwys dinasyddion a rhanddeiliaid**

Mae’r Bwrdd Iechyd wedi dangos ymrwymiad i gynnwys dinasyddion a rhanddeiliaid a gweithio gyda hwy trwy wahanol ddulliau

- Mae dinasyddion a rhanddeiliaid wedi cael eu cynnwys yn ystod y broses o ddatblygu cynlluniau gwasanaethau ac wedi cyfrannu at ddatblygiadau mewn gwasanaethau megis y Rhwydwaith Trawma Mawr a Gwasanaethau Llawfeddygaeth Thorasig.
- Mae’r Bwrdd Iechyd a sefydliadau’r trydydd sector yn lleol wedi llofnodi memorandwm cyd-ddealltwriaeth i ddangos ymrwymiad i fabwysiadu’r egwyddor datblygu cynaliadwy yn y ffordd y maent yn cydweithio.
- Mae’r Bwrdd Iechyd wedi cydweithio gyda Choleg Caerdydd a’r Fro, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a phartneriaeth ranbarthol o’r enw’r Fforwm Mwy Na Geiriau (a oedd yn cynnwys Cyngor Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre) i helpu i wella cydweithio wrth ddatblygu’r Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol.

# Rhan 2 – Archwiliad o 'ymgorffori'r model cymdeithasol o ofal yn natblygiad canolfannau iechyd a llesiant a hybiau llesiant'

## Mae'r pum ffordd o weithio wedi bod yn ganolog i gynllunio'r canolfannau iechyd a llesiant a'r hybiau llesiant ond mae cyfle i'r Bwrdd Iechyd a'i bartneriaid adeiladu ar lwyddiannau ar gyfer camau nesaf y rhaglen

25 Fe fwrion ni olwg ar ddull y Bwrdd Iechyd o ddatblygu'r cynigion a'r achosion busnes ar gyfer y prosiectau yng nghyfres un o'r Rhaglen Llunio Ein Llesiant i'r Dyfodol: Yn Ein Cymuned. Y prosiectau yng nghyfres un yw'r hybiau llesiant ym Maelfa, Penarth Parkview a chanolfan iechyd a llesiant yn Ysbyty Brenhinol Caerdydd. Ceir rhagor o wybodaeth am y cam hwn yn Atodiad 1.

### Mae'r canolfannau iechyd a llesiant a'r hybiau llesiant wedi'u bwriadu i fod yn rhan o'r weledigaeth hirdymor ehangach i greu model gofal iechyd mwy cynaliadwy ond mae cyflawni newid mewn adnoddau'n dal i fod yn her

26 Fe chwilion ni am dystiolaeth o'r canlynol:

- dealltwriaeth drylwyr am anghenion cyfredol a hirdymor a'r heriau a chyfleoedd cysylltiedig;
- cynllunio dros raddfa amser briodol;
- adnoddau a ddyrennir i sicrhau manteision hirdymor; a
- monitro ac adolygu priodol.

27 Canfuom y cryfderau canlynol:

- mae datblygu'r canolfannau a'r hybiau'n elfennau allweddol o raglen y Bwrdd 'Llunio Ein Llesiant i'r Dyfodol: Yn Ein Cymuned'. Mae hyn yn amcanu at ddatblygu ac ailgyflunio seilwaith cymunedol dros y cyfnod hyd at 2025 a'r tu hwnt i roi cymorth i drawsnewid gwasanaethau.
- mae'r achosion busnes yn seiliedig ar ddealltwriaeth am angen y boblogaeth yn awr ac yn y dyfodol, yn benodol i wahanol glystyrau. Er enghraifft, twf cyflym y boblogaeth, poblogaeth sy'n heneiddio, graddau'r ymddygiadau sy'n gysylltiedig â ffordd o fyw nad yw'n iach ac anghydraddoldebau iechyd parhaus, cydnabyddedig ledled Caerdydd a'r Fro. Fe wnaeth yr hybiau arfaethedig ystyried anghenion allweddol y boblogaeth a adnabuwyd yng Nghynllun Ardal Caerdydd a Bro Morgannwg ar gyfer Anghenion Gofal a Chymorth 2018-2023 wrth benderfynu ble y dylent gael eu lleoli.
- mae'r Bwrdd Iechyd a'i bartneriaid wedi defnyddio dull seiliedig-ar-dystiolaeth o ddatblygu'r achosion busnes trwy gynnal arfarniadau o'r opsiynau ac ymarferion gwireddu manteision.

- mae’r Bwrdd Iechyd wedi adnabod nad yw ei fodel presennol ar gyfer gofal sylfaenol yn gynaliadwy ac mae’n dylunio model newydd a fydd yn diwallu anghenion hirdymor ac yn defnyddio adnoddau’n fwy effeithlon.
- mae cynaliadwyedd amgylcheddol wedi cael ei gynnwys fel rhan o ddyluniad y seilwaith.
- mae’r cynigion yn amcanu at ddiogelu’r cyfleusterau cymunedol at y dyfodol, fel bod yr adeiladau’n ymarferol ar gyfer anghenion y presennol a’r dyfodol.
- mae’r Bwrdd Iechyd a’i bartneriaid wedi adnabod set o fesurau i fonitro’r rhaglen Llunio Ein Llesiant i’r Dyfodol: Yn Ein Cymuned ac yn cydnabod yr angen i adolygu hyn yn barhaus.

28 Fe ganfuom y pwyntiau dysgu canlynol:

- mae’r Bwrdd Iechyd yn dechrau codi proffil gwasanaethau cymunedol sy’n cydweithio megis gwasanaethau gofal sylfaenol, iechyd cymunedol, yr awdurdod lleol a’r trydydd sector ond gellid gwneud rhagor i godi proffil cysyniad y canolfannau a’r hybiau a manteision cydweithio.
- mae buddsoddi’n digwydd mewn gofal sylfaenol, trwy gyllid trawsnewid a phroses sy’n datblygu i ddyrannu adnoddau o ofal eilaidd. Er enghraifft, fe fuddsoddwyd arian yn ddiweddar mewn gwasanaethau Iechyd Meddwl a Chyhyrysgerbydol mewn gofal sylfaenol trwy newid y modd y dyrennir adnoddau, ond mae mwy o waith i’w wneud i barhau i ddatblygu’r broses hon. Bydd gan gydlynwyr llesiant rôl arwyddocaol yng ngweithrediad hybiau a chanolfannau o ran cysylltu cymunedau â gwasanaethau. Ar hyn o bryd caiff y rolau hyn eu cyllido trwy raglenni byrdymor a bydd angen i’r bwrdd iechyd ar y cyd â phartneriaid archwilio cymorth cynaliadwy i’r rolau hyn. Mae angen i’r Bwrdd Iechyd a’i bartneriaid ystyried sut y bydd yn monitro llwyddiannau’r modelau newydd ar gyfer darparu gwasanaethau yn y tymor byr a chanolig i oleuo cynlluniau ar gyfer cyfresi o’r rhaglen yn y dyfodol yn ogystal â deilliannau tymor hwy gan gynnwys profiad cleifion.
- mae angen i’r Bwrdd Iechyd a’i bartneriaid fod yn glir ynglŷn â nodau’r canolfannau a hybiau llesiant. Dylid cynnal asesiadau parhaus o anghenion clystyrau a’r boblogaeth i fwydo i mewn i brosesau cynllunio yn y dyfodol a sicrhau y darperir gwasanaethau priodol.

## Mae ffocws cryf ar addysgu a grymuso cymunedau i gymryd rheolaeth dros eu hiechyd eu hunain trwy hybu newid o feddwl am afiechyd i feddwl am iechyd, ond mae angen i’r Bwrdd Iechyd barhau i ddatblygu proses i fonitro effeithiolrwydd modelau gofal newydd i gyflawni manteision ataliol

29 Fe chwilion ni am dystiolaeth o’r canlynol:

- dealltwriaeth drylwyr am natur y broblem a’r math o broblem y gallai’r cam helpu i’w hatal rhag digwydd neu fynd yn waeth;
- adnoddau a ddyrennir i sicrhau y bydd manteision ataliol yn cael eu cyflawni; a

- gwaith i fonitro ac adolygu pa mor effeithiol yw'r cam o ran atal problemau rhag digwydd neu fynd yn waeth.

30 Canfuom y cryfderau canlynol:

- mae'r Bwrdd Iechyd yn deall achos sylfaenol afiechyd ac o ganlyniad mae wedi dylunio'r canolfannau a'r hybiau gyda'i bartneriaid i ddwyn ynghyd ystod o wasanaethau gofal sylfaenol, iechyd cymunedol a llesiant. Byddant yn amcanu at gefnogi llesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol trigolion yn y gymuned a byddant yn canolbwyntio ar atal ac iechyd yn hytrach nag afiechyd.
- mae'r Bwrdd Iechyd a'i bartneriaid yn ceisio grymuso pobl i ddewis ymddygiadau iach a rheoli eu hiechyd eu hunain. Yn y tymor hir bydd hyn yn lleihau'r galw am wasanaethau iechyd a'r ddibyniaeth arnynt a bydd yn newid cyfeiriadau meddwl lle mae ymddygiadau iach yn y cwestiwn.
- mae'r adeiladau eu hunain wedi'u dylunio fel eu bod "wedi'u diogelu at y dyfodol" fel nad ydynt yn dod yn rhwystr i ddatblygu yn y dyfodol.

31 Canfuom y pwyntiau dysgu canlynol:

- cyn bod canolfan neu hwb yn agor, dylai fod cynllun clir ar gyfer gwasanaethau a chyllid i osgoi dyblygu; ni ddylai hyn fod yn gyfyngedig i wasanaethau iechyd.
- mae'r Bwrdd Iechyd a'i bartneriaid yn cydnabod yr angen i fonitro effeithiolrwydd y model newydd o ofal yn barhaus i sicrhau bod manteision ataliol yn cael eu cyflawni. Er enghraifft, trwy weithio fel aelod o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i ddatblygu fframwaith deilliannau a dysgu o'r datblygiad yng Nghlwstwr De Orllewin Caerdydd.

### Mae gweledigaeth glir o ran sut y bydd y canolfannau a'r hybiau'n cefnogi pob un o'r nodau llesiant ond mae cyfleoedd i weithio gyda sefydliadau eraill i gynyddu'r effaith i'r eithaf ar draws yr holl nodau llesiant

32 Fe chwilion ni am dystiolaeth o ystyried y canlynol:

- sut y gallai'r cam hwn gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol;
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant a blaenoriaethau ehangach y Cyngor; a
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill.

33 Canfuom y cryfderau canlynol:

- mae'r achosion busnes ar gyfer y canolfannau a'r hybiau'n nodi sut y byddant yn cefnogi pob un o'r nodau llesiant.
- bu integreiddio ar bob lefel o'r prosiect o gynllunio'r prosiect i lefel y BPRh gyda'r holl bartneriaid yn gweithio tuag at amcanion cyffredin.

- roedd ffocws ar gydgysylltu adnoddau gyda phartneriaid i gyflawni amcanion ac osgoi dyblygu cyllid. Er enghraifft, buddsoddi yn y trydydd sector i gefnogi cynaliadwyedd meddygon teulu gyda gwasanaethau iechyd meddwl.
- mae'r Bwrdd Iechyd a phartneriaid yn dechrau meddwl sut y gallant ddefnyddio'r canolfannau a'r hybiau i gyflawni ar wahanol agweddau ar lesiant. Er enghraifft, dosbarthiadau a chyfarfodydd cymunedol, megis dosbarthiadau cyfrifiaduron, clwb garddio, cymorth gan gymheiriaid a gwella iechyd.

34 Canfuom y pwyntiau dysgu canlynol:

- mae potensial ar gyfer integreiddio pellach trwy bartneriaethau. Er enghraifft, gweithio gydag ymddiriedolaethau sydd mewn perchnogaeth gymunedol i ddarparu opsiynau sy'n ymwneud â'r celfyddydau a diwylliant mewn canolfannau a hybiau a gweithio gyda'r cynghorau a'r BPRh i greu llwybrau bysiau mwy hygyrch iddynt.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydweithio'n dda gyda'i bartneriaid i ddatblygu'r canolfannau iechyd a llesiant a'r hybiau llesiant gan arwain at berthnasoedd cryfach ond mae gwaith pellach i'w gwblhau ar egwyddorion gweithredu trosfwaol y canolfannau a'r hybiau

35 Fe chwilion ni am dystiolaeth bod y Bwrdd Iechyd:

- wedi ystyried sut y gallai weithio gydag eraill i gyflawni'r cam (i gyflawni ei amcanion llesiant, neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion llesiant);
- yn cydweithio'n effeithiol i gyflawni'r cam; ac
- yn monitro ac yn adolygu a yw cydweithio'n ei helpu ef neu'n helpu ei randdeiliaid i gyflawni amcanion llesiant.

36 Canfuom y cryfderau canlynol:

- mae'r canolfannau a'r hybiau wedi'u dylunio ar gyfer cydweithio gan y byddant yn fannau amlswyddogaethol gyda gwasanaethau wedi'u cydleoli a threfniadau ar gyfer gweithio fel timau amlddisgyblaethol, amlasiantaeth.
- mae'r cynigion ar gyfer y canolfannau a'r hybiau wedi cael eu datblygu mewn partneriaeth gyda meddygon teulu lleol, yr awdurdod lleol a sefydliadau'r trydydd sector.
- mae'r partneriaid yn teimlo bod datblygu cynigion ar gyfer y canolfannau a'r hybiau mewn modd cydweithredol wedi cryfhau perthnasoedd a bellach bod mwy o ymddiriedaeth, ymwybyddiaeth a sgyrsiau mwy aeddfed rhwng sefydliadau.

37 Canfuom y pwyntiau dysgu canlynol:

- mae cyfleoedd i gymhwyso llwyddiannau cydweithio i waith i gynllunio a datblygu'r canolfannau a'r hybiau yn y dyfodol.

- nid yw'r egwyddorion trosfwaol ar gyfer model gweithredu a pholisïau'r canolfannau a'r hybiau wedi cael eu penderfynu gan y Grŵp Cyflawni eto.

Mae'r Bwrdd Iechyd a'i bartneriaid wedi cynnwys amrywiaeth eang o grwpiau ac wedi diweddaru ei gynllun ymgysylltu i gynnwys gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau ymgysylltu

38 Fe chwilion ni am dystiolaeth bod y Bwrdd Iechyd:

- wedi adnabod pwy y mae angen iddo'u cynnwys wrth ddylunio a chyflawni'r cam;
- wedi mynd ati mewn ffordd effeithiol i gynnwys rhanddeiliaid wrth ddylunio a chyflawni'r cam;
- wedi defnyddio canlyniadau cynnwys pobl i ddylanwadu ar ddatblygu a chyflawni'r cam; ac
- wedi ceisio dysgu gwersi a gwella'i ddull o gynnwys.

39 Canfuom y cryfderau canlynol:

- y rhesymeg sylfaenol sy'n sail i'r Strategaeth Llunio Ein Llesiant i'r Dyfodol yw'r ffocws ar anghenion iechyd a llesiant y boblogaeth leol trwy gyflawni model cymdeithasol o iechyd a darparu gwasanaethau mewn modd cydweithredol gyda phartneriaid.
- mae gan y Bwrdd Iechyd Gynllun Ymgysylltu a Chyfathrebu ar gyfer datblygu'r canolfannau a'r hybiau a gaiff ei ddiweddaru trwy gydol y prosiect.
- cynhaliodd y Bwrdd Iechyd sesiynau ymgysylltu ynglŷn â'r canolfannau a'r hybiau gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid gan gynnwys aelodau o'r cyhoedd, y trydydd sector, aelodau'r Bwrdd, cynghorwyr a chontractwyr. Cafodd grwpiau sydd prin yn cael eu clywed megis pobl ifanc a grwpiau crefyddol eu cynnwys hefyd. Fe ymgysylltodd y Bwrdd Iechyd â phobl ifanc trwy brosiectau celfyddydol mewn ysgolion a oedd yn gofyn beth hoffent ei weld yn yr hybiau. Roedd y digwyddiadau ymgysylltu'n llwyddiannus ac fe wnaethant ddarparu allbynnau o ansawdd a gafodd eu bwydo'n ôl i'r tîm dylunio a chyflawni.
- bu'r Bwrdd Iechyd yn gweithio mewn partneriaeth gyda Chyngor Iechyd Cymuned Caerdydd a'r Fro a sefydliadau'r trydydd sector i ennyn ymgysylltiad cymunedau lleol a chydgynhyrchu'r cynlluniau ar gyfer y cyfleusterau cymunedol. Er enghraifft, Action in Caerau and Ely (ACE) yn Parkview a grwpiau eglwysig ym Maelfa.
- Roedd y Bwrdd Iechyd a'i bartneriaid yn teimlo bod y prosiect wedi meithrin diwylliant o wrando ac roedd partneriaid yn teimlo'u bod yn dysgu oddi wrth ei gilydd, oddi wrth ddinasyddion ac o brosiectau llwyddiannus tebyg. Er enghraifft, fe ymwelodd y Bwrdd Iechyd â Chanolfan Bromley by Bow.

- mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymhwyso gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau ymgysylltu i sesiynau ymgysylltu yn y dyfodol.

40 Canfuom y pwyntiau dysgu canlynol:

- Mae'r Bwrdd Iechyd a'i bartneriaid yn cydnabod y potensial i gefnogi newid mewn ymddygiad ac annog pobl i wneud dewisiadau iach trwy greu'r amgylchedd cywir i wneud dewisiadau gwell.
- Roedd y Bwrdd Iechyd a'i bartneriaid yn cydnabod potensial dod o hyd i arweinwyr cymunedol i helpu i gyflwyno negeseuon allweddol i sicrhau bod cyfathrebu'n digwydd yn barhaus.

# Atodiad 1

## Y Cam

### Gwybodaeth a ddarparwyd gan y Bwrdd Iechyd am y cam: Ymgorffori'r model cymdeithasol o ofal yn natblygiad canolfannau iechyd a llesiant a hybiau llesiant

- y cam a archwiliwyd oedd y dull y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i ddefnyddio wrth ddatblygu'r cynigion a'r achosion busnes ar gyfer y prosiectau yng ngham un o'r rhaglen Llunio Ein Llesiant i'r Dyfodol: Yn Ein Cymuned (Hybiau Llesiant ym Maelfa, Penarth a Parkview a Chanolfan Llesiant yn Ysbyty Brenhinol Caerdydd)
- mae'r Rhaglen Llunio Ein Llesiant i'r Dyfodol: Yn Ein Cymuned yn nodi'r rhesymeg dros ddatblygu ac ailgyflunio seilwaith cymunedol dros y cyfnod hyd at 2025 i roi cymorth i gyflawni'r Strategaeth Llunio Ein Llesiant i'r Dyfodol.
- bydd gan yr adeiladau gyfleusterau a rennir gyda chynghorau a mannau i grwpiau cymunedol eu defnyddio, i alluogi a chefnogi grwpiau cymunedol fel asedau yn y gymuned ar gyfer llesiant. Mae'r strategaeth yn nodi'r prosiectau cyfalaf y maent yn bwriadu eu hwyluso fel rhan o hyn gyda ffocws ar:-
  - Anghenion iechyd a llesiant y boblogaeth leol trwy gyflawni model cymdeithasol o ofal;
  - Hyrwyddo ffyrdd iach o fyw;
  - Lleihau anghydraddoldebau iechyd;
  - Cynllunio a darparu gofal iechyd yn agos at gartrefi pobl; a
  - Darparu gwasanaethau mewn modd cydweithredol gyda'n partneriaid a chefnogi twf economaidd.
- fe sefydlwyd y Rhaglen gyda'r nod o ddatblygu'r seilwaith ffisegol pwysig yr oedd ei angen i ategu gwasanaethau iechyd a llesiant cydweithredol, cynaliadwy a darbodus a ddarperir yn nes at adref, sy'n gwella deilliannau iechyd ac yn lleihau anghydraddoldebau iechyd. Bydd hyn yn arwain at ddatblygu rhwydwaith cynaliadwy o gyfleusterau ledled Caerdydd a'r Fro, sydd wedi'u bwriadu i greu mannau hyblyg i alluogi newid i ddigwydd. Bydd y rhain yn cynnwys:
  - Canolfan Iechyd a Llesiant ym mhob Ardal Leol (YBC, Gogledd a Gorllewin Caerdydd, Ysbyty'r Barri);
  - Hwb Llesiant ym mhob Clwstwr, a'r rheiny wedi'u cydleoli gyda chyfleusterau'r Cyngor lle y bo'n bosibl;
  - safleoedd gofal sylfaenol sy'n addas ar gyfer eu diben; a
  - chyfleusterau cymunedol wedi'u rhesymoli lle y bo'n briodol.
- mae strwythur rhaglen ffurfiol yn ei le gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn gweithredu fel Bwrdd y Rhaglen i lywio trefniadau cydweithio trwy'r rhaglen.

- wrth ddatblygu'r cynigion, defnyddiodd y Bwrdd Iechyd y model pum achos i ddatblygu'r achosion busnes a oedd yn golygu pennu cydweddiad strategol, cytuno ar amcanion lleol (Clystyrau), pennu cwmpas gofynion gwasanaethau, arfarniad o'r opsiynau, arfarniad o'r risgiau a'r manteision, dewis opsiynau a ffefrir, profi fforddiadwyedd a gofynion o ran cyllid, ac ymgysylltu â chymunedau. Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd archwilio rhagoriaeth o ran y model cymdeithasol o ardaloedd eraill hefyd (Bromley by Bow)
- tanategir y rhaglen gan weledigaeth y Bwrdd Iechyd bod siawns unigolyn o fyw bywyd iach yr un fath ble bynnag y mae'n byw a phwy bynnag ydyw. Wrth ei graidd, mae'r Strategaeth (a gydgynhyrchwyd gyda staff, sefydliadau partner a chynrychiolwyr y gymuned) yn cynnwys dyhead i gyflawni gofal cydgysylltiedig yn seiliedig ar gartref yn gyntaf, osgoi niwed, gwastraff ac amrywiad, grymuso pobl a chyflawni deilliannau sydd o bwys iddynt.
- wrth ystyried sut i lunio llesiant yn y dyfodol, bu'r ffocws ar anghenion iechyd a gofal y boblogaeth leol, gan gydweithio gyda phartneriaid i ddarparu gwasanaethau cynaliadwy.
- fe wnaeth y Bwrdd Iechyd ennyn ymgysylltiad pobl leol i archwilio'r hyn a oedd yn bwysig iddynt o ran sut y byddai'r ganolfan iechyd a llesiant / yr hwb llesiant yn gweithio i bobl leol.

# Atodiad 2

## Y Pum Ffordd o Weithio

Mae'r tabl isod yn nodi 'dangosyddion cadarnhaol' ar gyfer pob un o'r pum ffordd o weithio yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio i helpu i oleuo ein hasesiadau sy'n ystyried i ba raddau y gall cyrff fod yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Nid ydym yn bwriadu i'r dangosyddion gael eu defnyddio fel 'rhestr wirio'. Rydym wedi'u defnyddio fel 'dinasyddion' i'n helpu i ddod i gasgliadau, yn hytrach na 'phenderfynyddion' sy'n dynodi i ba raddau y mae corff yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.

Arddangosyn 4: y pum ffordd o weithio

| Beth fyddai'n dangos bod corff yn cymhwyso'r ffordd o weithio hirdymor yn llawn? |
|---|
| • Ceir dealltwriaeth glir am yr hyn y mae 'hirdymor' yn ei olygu yng nghyd-destun y Ddeddf.<br>• Maent wedi dylunio'r cam i gyflawni'r amcan(ion) llesiant a chyfrannu at eu gweledigaeth hirdymor.<br>• Maent wedi dylunio'r cam i gyflawni manteision yn y tymor byr neu ganolig, y ceir cydbwysedd rhyngddynt a'r effaith dros yr hirdymor (yng nghyd-destun y prosiect).<br>• Maent wedi dylunio'r cam yn seiliedig ar ddealltwriaeth soffistigedig am yr angen a phwysau yn awr ac yn y dyfodol, gan gynnwys dadansoddiad o dueddiadau'r dyfodol.<br>• O ganlyniad, ceir dealltwriaeth gynhwysfawr am risgiau a chyfleoedd yn awr ac yn y dyfodol.<br>• Mae adnoddau wedi cael eu dyrannu i sicrhau bod manteision hirdymor yn ogystal â manteision byrdymor yn cael eu cyflawni.<br>• Ceir ffocws ar gyflawni deilliannau, gyda cherrig milltir/camau cynnydd wedi'u nodi lle bydd deilliannau'n cael eu cyflawni dros yr hirdymor.<br>• Maent yn agored i ffyrdd newydd o wneud pethau a allai helpu i ddwyn manteision dros yr hirdymor.<br>• Maent yn gwerthfawrogi gwybodaeth ac yn mynd ar drywydd dulliau seiliedig ar dystiolaeth. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cymhwyso'r ffordd o weithio ataliol yn llawn?** |
| • Mae'r corff yn ceisio deall achosion sylfaenol problemau fel bod modd mynd i'r afael â chylchoedd negyddol a heriau sy'n pontio'r cenedlaethau.<br>• Mae'r corff yn ystyried heriau o safbwynt systemau cyfan, gan gydnabod a gwerthfawrogi'r manteision hirdymor y gallant eu dwyn i bobl a lleoedd.<br>• Mae'r corff yn dyrannu adnoddau i gamau ataliol sy'n debygol o gyfrannu at ddeilliannau gwell a defnydd gwell o adnoddau dros y tymor hwy, hyd yn oed lle gallai hyn gyfyngu ar y gallu i ddiwallu rhai anghenion byrdymor.<br>• Ceir trefniadau penderfynu ac atebolrwydd sy'n cydnabod gwerth camau ataliol ac yn derbyn gostyngiadau byrdymor mewn perfformiad ac adnoddau wrth fynd ar drywydd gwelliannau a ragwelir mewn deilliannau ac yn y defnydd o adnoddau. |

| Beth fyddai'n dangos bod corff yn defnyddio dull 'integredig'? |
|---|
| • Mae unigolion ar bob lefel yn deall eu cyfraniad at wireddu'r weledigaeth a'r amcanion llesiant.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn deall yr hyn y mae gwahanol rannau o'r sefydliad yn ei wneud ac yn mynd ati mewn modd rhagweithiol i geisio cyfleoedd i weithio ar draws ffiniau sefydliadol. Caiff hyn ei efelychu yn eu gwaith gyda chyrff cyhoeddus eraill.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn cydnabod y dibyniaethau traws-sefydliadol sy'n rhan o wireddu'r uchelgais a chyflawni'r amcanion.<br>• Ceir diwylliant agored lle mae gwybodaeth yn cael ei rhannu.<br>• Ceir dealltwriaeth sydd wedi datblygu'n dda am y modd y mae'r amcanion llesiant a'r camau i'w cyflawni'n effeithio ar gyrff eraill yn y sector cyhoeddus.<br>• Mae unigolion yn gweithio mewn modd rhagweithiol ar draws ffiniau sefydliadol i wneud y cyfraniad mwyaf posibl ar draws y nodau llesiant a lleihau effeithiau negyddol i'r eithaf.<br>• Mae trefniadau llywodraethu, strwythurau a phrosesau'n cefnogi hyn, ac felly hefyd ymddygiadau. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cydweithio'n effeithiol?** |
| • Mae'r corff yn canolbwyntio ar le, cymuned a deilliannau yn hytrach na ffiniau sefydliadol.<br>• Mae gan y corff ddealltwriaeth dda am amcanion partneriaid a'u cyfrifoldebau, sy'n helpu i lywio gweithgarwch cydweithredol.<br>• Mae gan y corff berthnasoedd cadarnhaol ac aeddfed â rhanddeiliaid, lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Mae'r corff yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniadau y gall yr holl bartneriaid eu gwneud.<br>• Mae'r corff yn ceisio canfod prosesau cyffredin a ffyrdd cyffredin o weithio, lle y bo'n briodol. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cynnwys pobl yn effeithiol ?** |
| • Deall pwy y mae angen eu cynnwys a pham.<br>• Myfyrio pa mor dda y mae'r anghenion a'r heriau a wynebir gan y bobl hynny'n cael eu deall ar hyn o bryd.<br>• Gweithio mewn modd cydgynhyrchiol, gan weithio gyda rhanddeiliaid i ddylunio a chyflawni.<br>• Ystyried barn rhanddeiliaid fel ffynhonnell wybodaeth hanfodol a fydd yn helpu i gyflawni deilliannau gwell.<br>• Sicrhau bod yr amrywiaeth lawn o randdeiliaid yn cael eu cynrychioli a'u bod yn gallu cymryd rhan.<br>• Bod â pherthnasoedd aeddfed, seiliedig ar ymddiriedaeth â'i randdeiliaid lle ceir deialog barhaus a lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall effaith eu cyfraniad.<br>• Ceisio adborth gan randdeiliaid allweddol a ddefnyddir i helpu i ddysgu a gwella. |

# Atodiad 3

## Ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i gyfleoedd ar gyfer gwella

Bydd ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd yn cael ei fewnosod yma. Bydd yr atodiad hwn yn rhan o'r adroddiad terfynol a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru unwaith y bydd yr adroddiad wedi cael ei ystyried gan y Bwrdd neu un o bwyllgorau perthnasol y Bwrdd.

Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd ystyried ein canfyddiadau yn y gweithdy a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2019 ac fe gytunodd ar nifer o gyfleoedd i wella o ran ymgorffori'r model cymdeithasol o ofal yn natblygiad canolfannau iechyd a llesiant a hybiau llesiant. Mae'r tabl canlynol yn cyflwyno'r camau gweithredu y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'u hadnabod mewn ymateb.

Arddangosyn 5: ymateb rheolwyr i'r cyfleoedd ar gyfer gwella

| Cyfleoedd ar gyfer gwella | Ymateb rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Hirdymor** | | | |
| I1 Mynd ati ymhellach i wella proffil gofal sylfaenol trwy adeiladu ar lwyddiannau ymgyrchoedd hyrwyddo presennol. | Byddwn yn parhau i adeiladu ar yr ymgyrch Dewis Sylfaenol i hyrwyddo Gofal Sylfaenol. | Yn barhaus | Lisa Dunsford Cyfarwyddwr Gweithrediadau, Gofal |

| Cyfleoedd ar gyfer gwella | Ymateb rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | | | Sylfaenol, Cymunedol a Chanolradd |
| I2 Datblygu ymgyrch i addysgu'r cyhoedd am y mathau o wasanaethau a fydd ar gael ym mhob un o'r canolfannau a'r hybiau. | Mae gennym raglen ymgysylltu weithredol ar gyfer pob un o'r Hybiau Llesiant a'r Canolfannau Iechyd a Llesiant, byddwn yn parhau i esblygu ein hymgysylltiad gan weithio gyda sefydliadau lleol, cydweithwyr ym maes iechyd y cyhoedd a grwpiau cymunedol i hyrwyddo'r gwasanaethau ym mhob canolfan. | | Abigail Harris Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio Strategol |
| I3 Defnyddio enghreifftiau o symud gwasanaethau'n llwyddiannus o ofal eilaidd i ofal cymunedol a sylfaenol i hybu a chynnal newid mewn adnoddau o wasanaethau eraill a allai gael eu darparu'n nes at adref. | Mae cynorthwyo gwasanaethau i newid i ddarparu yn y gymuned yn elfen graidd o Gynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd. Trwy'r broses hon rydym yn dathlu ac yn hyrwyddo enghreifftiau o arfer da. | | Abigail Harris Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio Strategol |
| I4 Datblygu model i fonitro ac adolygu effaith a manteision y canolfannau a'r hybiau. Defnyddio dull cyfunol sy'n cynnwys mesurau deilliannau, data, prosiectau enghreifftiol a storïau cleifion i ddangos nid dim ond cost-effeithiolrwydd ond hefyd yr effaith gadarnhaol ar brofiad cleifion. | Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn datblygu Fframwaith Deilliannau a fydd yn darparu offeryn i roi cymorth i werthuso effaith Canolfannau Iechyd a Llesiant a Hybiau Llesiant. | | Abigail Harris Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio Strategol |
| **Atal** | | | |

| Cyfleoedd ar gyfer gwella | Ymateb rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| I5 Cynnal asesiadau o'r anghenion yn barhaus a mynd ati'n barhaus i adolygu gwasanaethau i sicrhau bod canolfannau a hybiau'n dal i fod yn gyfredol ac yn addas i'w diben.<br><br>I6 Datblygu cynllun clir i gytuno ar faterion ariannol cyn bod gwasanaethau canolfannau a hybiau'n dechrau i atal dyblygu adnoddau. | Mae'n ofynnol i Glystyrau Gofal Sylfaenol gynhyrchu cynlluniau i ddiwallu anghenion eu poblogaethau; bydd hyn yn cynnwys ystyried gwasanaethau'r Hybiau Llesiant unwaith y byddant wedi'u sefydlu. Bydd y cynlluniau hyn yn ystyried tystiolaeth o asesiadau ehangach o anghenion gan gynnwys diweddariadau yn y dyfodol i'r asesiad o'r boblogaeth sy'n ofynnol dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a'r Asesiad Llesiant sy'n ofynnol dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol<br><br>Bydd hyn yn rhan o fodel gweithredu'r Hybiau Llesiant. | Yn flynyddol<br><br>Tachwedd 2021 | Lisa Dunsford Cyfarwyddwr Gweithrediadau, Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Chanolradd<br><br>Fiona Kinghorm Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd |
| **Integreiddio** | | | |
| I7 Cwblhau ymarfer mapio gwasanaethau cymunedol ar gyfer pob ardal leol i adnabod gwasanaethau y gallai gyfeirio cleifion atynt os ydynt yn perthyn y tu allan i'r gwasanaethau a ddarperir gan ganolfannau a hybiau. | Byddwn yn gwneud y gwaith mapio hwn ar sail ardaloedd lleol a chlystyrau mewn partneriaeth gydag offer a gwasanaethau presennol megis Dewis Cymru. | Hydref 2021 | Abigail Harris Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio Strategol |
| **Cydweithio** | | | |
| I8 Datblygu rhai egwyddorion trosfwaol ar gyfer y canolfannau a'r hybiau gan weithredu model sy'n darparu ar gyfer rhai amrywiadau lleol yn seiliedig ar angen cymunedol. | Byddwn yn sefydlu model gweithredu trosfwaol ar gyfer y Ganolfan Iechyd a Llesiant a'r Hybiau Llesiant a fydd yn canolbwyntio ar weithredu fel asedau unigol a chefnogi perchnogaeth gymunedol. | Hydref 2021 | Abigail Harris Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio Strategol |

| Cyfleoedd ar gyfer gwella | Ymateb rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Cynnwys** | | | |
| I9 Archwilio'r cyfryngau gorau ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion sydd wedi'u hymyleiddio o ran cynllunio canolfannau a hybiau yn y dyfodol ac o ran sicrhau eu bod yn hygyrch i bawb pan ydynt yn weithredol. Er enghraifft, trwy ddod o hyd i arweinwyr cymunedol i helpu i gyflwyno negeseuon allweddol ac ymgysylltu â'r grwpiau hyn yn barhaus. | Byddwn yn sicrhau bod hyn yn rhan o'r cynllun ymgysylltu ar gyfer pob prosiect. | Hydref 2021 | Abigail Harris Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio Strategol |
| I10 Cynnwys cwestiwn yn nhempled y Cynllun Tymor Canolig Integredig sy'n gofyn sut y bydd byrddau clinigol yn cyrraedd grwpiau sydd wedi'u hymyleiddio. | Mae ystyriaethau i ddatblygiadau o ran gwasanaethau ac ymgysylltu â grwpiau sydd wedi'u hymyleiddio eisoes yn rhan o ddatblygu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig. | Ionawr 2020 | Abigail Harris Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio Strategol |

Byddwn yn monitro cynnydd y Bwrdd Iechyd o ran rhoi'r camau gweithredu hyn ar waith, ac i ba raddau y maent yn mynd i'r afael â'r materion yr ydym wedi'u hadnabod yn ein canfyddiadau, trwy ein rhaglenni gwaith ar gyfer y dyfodol.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru